# Penderfyniad Terfynol

## CW/01283/04/24: Ymchwiliad i gydymffurfiad Fenix International Limited (Fenix) â'i ddyletswydd i ymateb yn gywir i geisiadau am wybodaeth

**Fersiwn heb fod yn gyfrinachol –** mae'r darnau sydd wedi'u tynnu'n cael eu dangos gyda [✂]

Dyddiad rhoi'r gosb: 26 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........................................ 3
2. Fframwaith Cyfreithiol ........................................ 4
3. Y Cefndir Ffeithiol ........................................ 7
4. Penderfynu ar y tor-amod ........................................ 11
5. Penderfynu ar lefel briodol y gosb ........................................ 13

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r Penderfyniad Terfynol hwn yn nodi penderfyniad y Swyddfa Gyfathrebiadau ('Ofcom') ar dorri amodau a chosb o dan Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003[1] ('y 'Ddeddf') mewn perthynas â Fenix International Limited ('Fenix'), rhif cofrestru'r cwmni 10354575 ac sydd â'i swyddfa gofrestredig yn 9fed Llawr, 107 Cheapside, Llundain, EC2V 6DN.

1.2 Dyma ein Penderfyniad Terfynol sy'n nodi ein penderfyniad ar gydymffurfiad Fenix ag adran 368Y(3)(b) ac adran 368Z10 o'r Ddeddf. Mae'n nodi pam rydym wedi canfod bod Fenix wedi mynd yn groes i'w ddyletswyddau a pham rydym yn rhoi cosb o £1,050,000 i Fenix.

1.3 Fenix yw darparwr y llwyfan OnlyFans. Mae OnlyFans yn wasanaeth Llwyfan Rhannu Fideos ('VSP') a hysbyswyd i Ofcom o dan Ran 4B o'r Ddeddf.

**Canfyddiadau Ofcom – yn gryno**

Mae Ofcom wedi penderfynu bod Fenix wedi mynd yn groes i'w ddyletswyddau o dan adrannau canlynol y Ddeddf:

a) Adran 368Y(3)(b): dyletswydd i gydymffurfio â gofyniad am wybodaeth o dan adran 368Z10; ac

b) Adran 368Z10(6): dyletswydd i ddarparu gwybodaeth mewn modd a ffurf ac o fewn cyfnod rhesymol a bennir gan Ofcom mewn cais am wybodaeth o dan adran 368Z10.

Yn unol â'n canllawiau gorfodi rheoleiddiol, cafodd Fenix ddewis cymryd rhan mewn proses setlo gyda'r ymchwiliad. Ar 12 Mawrth 2025, cadarnhaodd Fenix ei benderfyniad i setlo a chytunodd drwy'r cytundeb setlo, ei fod yn ildio ei hawliau gweithdrefnol, gan gynnwys ei hawliau i wneud sylwadau ysgrifenedig neu i gael gwrandawiad llafar ar sylwedd y canfyddiadau dros dro. Cadarnhaodd Fenix hefyd drwy ddewis setlo'r ymchwiliad na fyddai'n herio nac yn apelio'r penderfyniad.

Mae Ofcom wedi penderfynu rhoi cosb o £1,050,000 i Fenix am fynd yn groes i'r gofynion a nodir uchod. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 30% ar ffigur y gosb o £1,500,000 y byddem wedi'i roi fel arall pe na bai Fenix wedi gofyn am gael setlo'r ymchwiliad. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r arbedion i adnoddau Ofcom oherwydd bod Fenix wedi cytuno i setlo drwy gyfaddef atebolrwydd llawn.

[1] Communications Act 2003 (legislation.gov.uk)

# 2. Fframwaith Cyfreithiol

2.1 Mae'r drefn VSP wedi'i nodi yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) ac mae'n deillio o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol Ewropeaidd ddiwygiedig 2018.[2] Daeth y gofynion o dan y drefn hon i rym ym mis Tachwedd 2020. Yn y Penderfyniad Terfynol hwn rydym yn cyfeirio at y fframwaith rheoleiddio a nodir yn Rhan 4B o'r Ddeddf fel 'y fframwaith VSP' neu'r 'drefn VSP'.

## Dyletswyddau'r darparwyr VSP i roi mesurau priodol ar waith

2.2 O dan y drefn VSP, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP roi mesurau priodol ar waith i ddiogelu:[3]

a) y cyhoedd rhag gweld cynnwys fideo sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grwpiau gwarchodedig, a chynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; cynnwys cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia – y cyfeirir ato fel 'deunydd niweidiol perthnasol'; a,

b) phobl ifanc o dan 18 oed rhag fideos sy'n cynnwys deunydd R18 neu ddeunydd heb ei gategoreiddio, a deunydd arall a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol ('deunydd dan gyfyngiadau').

2.3 Gyda'i gilydd mae deunydd niweidiol perthnasol a deunydd dan gyfyngiadau yn cael eu galw yn 'ddeunydd niweidiol'.

2.4 Mae deddfwriaeth VSP yn rhestru rhai mesurau (mesurau 'atodlen 15A') y mae'n rhaid i ddarparwyr VSPs eu rhoi ar waith, os bydd hynny'n briodol, i gyflawni eu dyletswydd i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.[4]

2.5 Mae'n rhaid i ddarparwyr VSP benderfynu pa rai o fesurau atodlen 15A sy'n briodol i'w llwyfan gan ystyried ffactorau penodol a nodir yn y Ddeddf.[5]

2.6 Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n ddyletswydd ar ddarparwyr VSP i weithredu'r mesurau Atodlen 15A y maent yn eu cymryd mewn ffordd a fydd yn cyflawni'r diben y cawsant eu gweithredu ar ei gyfer.[6]

## Rôl a phwerau Ofcom

2.7 Mae Ofcom wedi bod yn rheoleiddiwr VSPs sydd yn y DU ers mis Tachwedd 2020. Fel rhan o'n swyddogaethau o dan y drefn VSP, rydym yn monitro sut mae pobl o dan 18 oed yn cael eu diogelu rhag fideos a chyfathrebiadau masnachol clyweledol sy'n cynnwys deunydd dan gyfyngiadau, fel deunydd a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol.

---

[2] Cafodd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ddiwygiedig ei throsi i gyfraith y DU o dan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a gyflwynodd Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[3] Adran 368Z1(1) o'r Ddeddf.
[4] Atodlen 15A o'r Ddeddf.
[5] Adran 368Z1(4) o'r Ddeddf.
[6] Adran 368Z1(2) o'r Ddeddf.

2.8 Un o'n swyddogaethau craidd o dan y drefn yw deall a monitro'r gwahanol fesurau sicrwydd oedran sy'n cael eu cymryd a'u rhoi ar waith gan ddarparwyr VSP a dadansoddi eu heffeithiolrwydd o ran diogelu plant rhag deunydd dan gyfyngiadau, gan gynnwys pornograffi.[7]

## Ceisiadau statudol am wybodaeth

2.9 Mae adran 368Z10 o'r Ddeddf yn rhoi'r pwerau i Ofcom fynnu bod gwybodaeth y mae'n credu sy'n angenrheidiol yn cael ei rhoi iddo er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau o dan y drefn VSP. Ymysg pethau eraill, gall Ofcom fynnu gwybodaeth at ddibenion cynhyrchu adroddiad tryloywder[8] ac at ddibenion monitro pa rai o'r mesurau a nodir yn Atodlen 15A sy'n cael eu cymryd gan VSPs a sut mae'r mesurau hynny'n cael eu rhoi ar waith.[9]

2.10 O dan adran 368Z10(6), mae gan rywun sy'n gorfod darparu gwybodaeth o dan adran 368Z10 o'r Ddeddf ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth hon "mewn modd a ffurf ac o fewn cyfnod rhesymol a bennir gan yr awdurdod mewn cais am wybodaeth".

2.11 Ar ben hynny, mae gan ddarparwr VSP ddyletswydd statudol o dan adran 368Y(3)(b) o'r Ddeddf i gydymffurfio â chais am wybodaeth o dan adran 368Z10.

## VSPs ac adroddiadau tryloywder

2.12 Mae offer rheoleiddio Ofcom o dan y drefn VSP yn cynnwys y pŵer i gynhyrchu ac i gyhoeddi adroddiadau ar y mesurau a ddefnyddir gan ddarparwyr VSP er mwyn diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol a'r ffyrdd y caiff mesurau o'r fath eu rhoi ar waith.[10]

2.13 Er mwyn meithrin agwedd agored at ein gwaith yn y maes hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau o'r fath yn rheolaidd ar ein gwefan allanol.[11] Rydym yn galw'r adroddiadau hyn yn 'adroddiadau VSP' neu'n 'adroddiadau tryloywder' drwy'r Penderfyniad Terfynol hwn.

2.14 Rydym yn cymryd ein rôl i hyrwyddo mwy o dryloywder gan VSPs o ddifrif; er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn effeithiol, mae'n hanfodol bod yr wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi yn ystyrlon ac yn gywir.

## Pwerau Gorfodi Ofcom

2.15 O dan adran 368Z2, mae gan Ofcom bŵer i roi hysbysiad gorfodi a/neu roi cosb ariannol i ddarparwr VSP pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darparwr VSP yn mynd neu wedi mynd yn groes i'w ddyletswyddau o dan adran 368Y o'r Ddeddf. Mae hysbysiad gorfodi yn golygu hysbysiad sy'n pennu'r penderfyniad am dorri amod ac mae'n rhoi gofynion ar y darparwr i gymryd camau i gydymffurfio neu i wneud iawn am ganlyniadau torri'r amod a bennir yn yr hysbysiad.[12]

2.16 Yn ogystal â'r uchod, o dan adran 368Z10(7), mae adran 368Z2 hefyd yn berthnasol yng nghyswllt methiant darparwr VSP i gydymffurfio â'r cais am wybodaeth o dan adran 368Z10 fel petai'n torri amod adran 368Y.

---

[7] Adran 368E o'r Ddeddf; diffiniad o ddeunydd dan gyfyngiadau.
[8] Adran 368Z10(3)(h) o'r Ddeddf.
[9] Adran 368Z10(3)(g) o'r Ddeddf.
[10] Adran 368Z11 o'r Ddeddf.
[11] Llwyfannau rhannu fideos: Cynllun a dull gweithredu Ofcom
[12] Adran 368Z2 (3) o'r Ddeddf

2.17 Pan fydd Ofcom yn penderfynu rhoi cosb i ddarparwr VSP o dan adran 368Z2, mae swm uchaf y gosb yn 5% o refeniw cymwys perthnasol y darparwr VSP[13] neu'n £250,000, pa un bynnag sydd fwyaf.[14]

2.18 Rydym yn ymchwilio i gydymffurfiad â'r drefn VSP yn unol â'n canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol.[15]

[13] Gweler adran 368Z4(3)-(5) o'r Ddeddf i gael ystyr refeniw cymwys perthnasol.
[14] Adran 368Z4 o'r Ddeddf.
[15] Regulatory Enforcement Guidelines for investigations (ofcom.org.uk)

# 3. Y Cefndir Ffeithiol

## Only Fans

3.1 Ym mis Mai 2021, rhoddodd Fenix wybod i Ofcom fod OnlyFans yn VSP gyda'r cysylltiad gofynnol â'r DU i fod yn rhan o gwmpas y drefn VSP.[16] Ar sail yr wybodaeth a roddwyd i Ofcom, rydym yn credu bod OnlyFans yn rhan o gwmpas y drefn VSP a bod Fenix yn rhwym wrth ddyletswyddau darparwyr VSP.

3.2 O dan adran 368Z10(1), mae darparwyr VSP, fel Fenix, ymysg y bobl y gall fod angen gwybodaeth ganddynt ar Ofcom er mwyn cyflawni ein swyddogaethau o dan y drefn VSP.

## Hysbysiad gwybodaeth 2022

3.3 Ar 6 Mehefin 2022 cyhoeddodd Ofcom gais statudol am wybodaeth ('Hysbysiad 2022')[17] a oedd yn gofyn am wybodaeth am y mesurau Atodlen 15A roedd Fenix wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr ar lwyfan OnlyFans, gan gynnwys ei fesurau sicrwydd oedran. Roedd Hysbysiad 2022 yn datgan bod angen yr wybodaeth ar Ofcom at ddibenion monitro rheoleiddiol a chynhyrchu adroddiad VSP yn unol ag adrannau 368Z10(g) a (h) o'r Ddeddf.

3.4 Roedd Hysbysiad 2022 yn gofyn cwestiynau penodol am ddatrysiad amcangyfrif oedran trydydd parti OnlyFans a ddarparwyd gan [✂] Roedd cwestiwn 6 o Atodiad 4 yn Hysbysiad 2022 yn gofyn i Fenix sut roedd ei dreial technoleg amcangyfrif oedran wedi gweithio ac yn gofyn am gyflwyno unrhyw ddogfennau ategol.

3.5 Nid oedd yr ymateb a roddodd Fenix i gwestiwn 6 yn cynnwys y manylion y gofynnwyd amdanynt, felly gofynnodd Ofcom am eglurhad pellach ar 25 Awst 2022.[18]

3.6 Ar 5 Medi 2022, atebodd Fenix ein cwestiynau am eglurhad pellach gan nodi:

> *"Mae [✂] yn declyn amcangyfrif oedran sydd **wedi'i osod ar 23 oed**. Mae [✂], i'r gwrthwyneb, yn declyn gwirio oedran sydd wedi'i ddylunio i wirio oedran rhywun…"*[19]

3.7 Cafodd yr wybodaeth am oedran herio amcangyfrif wynebau OnlyFans a roddwyd ar 5 Medi 2022 ei chyhoeddi ar 20 Hydref 2022 yn adroddiad Ofcom *'Adroddiad VSP Blwyddyn 1: Blwyddyn gyntaf Ofcom o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos'*[20]

3.8 Defnyddiodd Fenix ddarparwr trydydd parti ar gyfer ei declyn amcangyfrif oedran i fesur sicrwydd oedran gweithredol ar ei lwyfan, OnlyFans. Mae'r darparwr trydydd parti yn mynnu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn dewis 'oedran herio', sydd hefyd yn cael ei alw'n drothwy sicrwydd oedran, cyn defnyddio'r adnodd amcangyfrif oedran. Ar ôl dewis oedran herio, bydd y teclyn yn gofyn i'r darpar ddefnyddiwr (a elwir hefyd yn 'ffan') lwytho delwedd fyw i fyny a bydd yn amcangyfrif oedran y defnyddiwr. Os amcangyfrifir bod y defnyddiwr yn hŷn na'r oedran herio bydd yn cael bwrw ymlaen i greu cyfrif ar lwyfan

---

[16] Gohebiaeth e-bost dyddiedig 4 Mai 2021 rhwng Ofcom a Fenix lle mae'n cadarnhau ei fod yn ddarparwr sydd wedi rhoi hysbysiad o fewn ystyr 368S o'r Ddeddf.

[17] Anfonwyd dros e-bost oddi wrth [✂] (Ofcom) at [✂] (OnlyFans) ar 6 Mehefin 2022.

[18] Trywydd e-bost dyddiedig 25 Awst 2022 gan y Gofrestrfa Gwybodaeth i Fenix.

[19] Ymateb Fenix i'r cwestiynau am eglurhad pellach. Atodiad 4, cwestiwn 6 ar dudalen 6.

[20] Blwyddyn gyntaf Ofcom o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos, tudalen 99

OnlyFans. Os amcangyfrifir nad yw defnyddiwr yn hŷn na’r oedran herio bydd yn rhaid cadarnhau bod y defnyddiwr yn hŷn na 18 oed drwy ddefnyddio ail ddarparwr sicrwydd oedran OnlyFans.

3.9 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghlwm wrth dechnolegau amcangyfrif oedran, sydd fel arfer yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth ddewis oedran herio gyda ‘byffer diogelwch’ addas h.y. dewis oedran herio uwch na’r oedran diddordeb i ganiatáu unrhyw oramcangyfrif.

3.10 Roedd y darparwr amcangyfrif oedran trydydd parti a ddefnyddiwyd gan OnlyFans yn datgan [✂][21] ‘… yn union fel y mae’n bosibl i bobl sy’n amcangyfrif wneud camgymeriadau, mae’r un peth yn wir gydag amcangyfrif oedran yr wyneb. Er mwyn rheoli’r potensial hwn am gamgymeriadau, rydym yn argymell defnyddio amcangyfrif oedran yr wyneb fel rhan o strategaeth fel ‘Herio 21’ Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain...

3.11 Fel y nodwyd uchod, fel rhan o’i ymateb i Hysbysiad 2022, dywedodd Fenix wrth Ofcom ei fod wedi dewis 23 yn oedran herio.

## Hysbysiad gwybodaeth 2023

3.12 Anfonodd Ofcom gais statudol arall am wybodaeth i Fenix ar 23 Mehefin 2023 (‘Hysbysiad 2023’).[22] Roedd yr hysbysiad hwn yn canolbwyntio ar fesurau sicrwydd oedran OnlyFans.

3.13 Yn ei ymateb i Hysbysiad 2023, a ddarparwyd ar 4 Awst 2023, dywedodd Fenix:

> *“Yn 2021, dechreuodd OnlyFans hefyd ddefnyddio [✂]… i amcangyfrif oedran ar gyfer Ffans mewn rhai gwledydd, gan gynnwys y DU…. Mae OnlyFans wedi mabwysiadu agwedd ofalus at yr ymarfer hwn ac mae’n gosod y **terfyn oed isaf yn 23**...”*[23]

## Darganfod oedran herio anghywir a rhoi gwybod i Ofcom

3.14 Ar 3 Ionawr 2024, rhoddodd darparwr amcangyfrif oedran OnlyFans gyflwyniad i Fenix. Yn ystod y cyflwyniad hwn, dangoswyd sleidiau a oedd yn nodi mai 20, nid 23, oedd yr oedran herio i ddefnyddwyr OnlyFans (ffans).[24] Roedd hyn yn groes i ddealltwriaeth Fenix bryd hynny.

3.15 Cwestiynodd Fenix hyn gyda'i ddarparwr, ac ar 4 Ionawr 2024 cadarnhaodd y darparwr fod y feddalwedd amcangyfrif oedran a ddefnyddiwyd gan OnlyFans wedi’i osod i oedran herio o 20.[25] Dywedodd Uwch Berson A Fenix wrth uwch Berson B ac Uwch Berson C am yr anghysondeb a gofynnodd i Uwch Berson C ymchwilio.

[21] [✂]
[22] Anfonwyd dros e-bost oddi wrth [✂] (Ofcom) at [✂] (OnlyFans) ar 23 Mehefin 2023
[23] Ymateb Fenix i gwestiwn 1 atodiad 3 ar dudalen 16. Anfonwyd yr ateb drwy e-bost ar 4 Awst 2023.
[24] Llythyr a anfonodd Fenix i’r Gofrestrfa Gwybodaeth ar 26 Ionawr 2024 yn rhoi gwybod am y gwall oedran herio.
[25] Cofnod 4 Ionawr 2024 yn yr amserlen a roddodd Fenix i Ofcom ar 28 Awst 2024, Arddangosyn 4 o ymateb Fenix i’r cais cyntaf am wybodaeth yn yr ymchwiliad a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 31 Gorffennaf 2024.

3.16 Ar 9 Ionawr 2024, cadarnhaodd Uwch Berson C fod oedran herio OnlyFans wedi'i osod ar 20 ac wedi bod ers mis Tachwedd 2021.[26]

3.17 Penderfynwyd y byddai OnlyFans yn newid ei oedran herio i 23, ac ar 16 Ionawr 2024 roedd yr oedran herio hŷn hwn yn 'fyw' ar onlyfans.com a daeth i rym i'r holl 'ffans' yn y DU.[27]

3.18 Ddydd Gwener 19 Ionawr 2024, cwblhaodd Fenix ei adolygiad cydredol o osod yr oedran herio a dewisodd newid yr oedran herio i 21. Cysylltodd Fenix â thîm goruchwylio VSPs Ofcom ar yr un dyddiad a gofynnodd am gyfarfod.[28] Cynigiodd tîm Ofcom gyfarfod ar 22 Ionawr 2024.

3.19 Ar 22 Ionawr 2024, cyfarfu Fenix ag Ofcom i roi gwybod i ni ei fod wedi darparu gwybodaeth anghywir mewn ymateb i Hysbysiadau 2022 a 2023.[29]

3.20 Dilynodd OnlyFans y cyfarfod hwn gyda llythyr ar 26 Ionawr 2024.[30] Yn y llythyr hwn, dywedodd Fenix:

> *"Ar 4 Gorffennaf 2022, mewn ymateb i Hysbysiad Gwybodaeth dyddiedig 6 Mehefin 2022, roedd OnlyFans ...wedi datgan mewn gohebiaeth flaenorol ag Ofcom bod y trothwy wedi'i osod i 23 oed.* ***Gwnaed y datganiadau hyn yn ddidwyll ar sail gwybodaeth OnlyFans ar y pryd, ond erbyn hyn mae angen eu diwygio.*** *Rydym wedi dod yn ymwybodol yn ddiweddar, ar yr adeg y gwnaethom y datganiadau blaenorol hyn, fod y trothwy amcangyfrif oedran ar gyfer ffans yn y DU drwy ein darparwr sicrwydd oedran trydydd parti [✂], wedi'i osod i 20 oed."*

3.21 Ar 5 Mawrth 2024, mewn ymateb i gwestiynau anffurfiol a anfonwyd gan y tîm goruchwylio er mwyn cael dealltwriaeth well o gefndir ac effaith y tor-amod posibl o ran gwybodaeth a sicrwydd oedran, cadarnhaodd Fenix fod yr oedran herio ar gyfer ei fesur amcangyfrif oedran wedi cael ei osod i 20 am dros 2 flynedd - o 1 Tachwedd 2021 tan 9 Ionawr 2024, a bod *'methiant rhaglennydd dynol wedi arwain at osod yr oedran herio yn 20'*.[31]

3.22 Ar 1 Mai 2024 agorodd Ofcom ymchwiliad[32] i adolygu a oedd Fenix wedi methu cydymffurfio â'i ddyletswyddau i ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir mewn ymateb i ddau gais statudol. Roedd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried a oedd Fenix wedi gweithredu ei fesurau sicrwydd oedran ar OnlyFans yn effeithiol mewn ffordd a oedd yn diogelu pobl ifanc o dan 18 oed yn ddigonol rhag deunydd dan gyfyngiadau yn unol ag adran 368Z1(2) o'r Ddeddf, ac a oedd wedi methu â chydweithredu ag Ofcom yn unol â'i ddyletswyddau o dan adran 368Y(3)(c).[33]

---

[26] Cofnod 9 Ionawr 2024 yn yr amserlen a roddodd Fenix i Ofcom ar 28 Awst 2024, Arddangosyn 4 o ymateb Fenix i'r cais cyntaf am wybodaeth yn yr ymchwilio cyntaf i wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 31 Gorffennaf 2024.

[27] Cofnod 11 Ionawr 2024 yn yr amserlen a roddodd Fenix i Ofcom ar 28 Awst 2024, Arddangosyn 4 o ymateb Fenix i'r cais cyntaf am wybodaeth yn yr ymchwiliad a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 31 Gorffennaf 2024.

[28] Cofnod 19 Ionawr 2024 yn yr amserlen a roddodd Fenix i Ofcom ar 28 Awst 2024, Arddangosyn 4 o ymateb Fenix i'r cais cyntaf am wybodaeth yn yr ymchwilio cyntaf i wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 31 Gorffennaf 2024.

[29] Llythyr a anfonodd Fenix i'r Gofrestrfa Gwybodaeth ar 26 Ionawr 2024 yn rhoi gwybod am y gwall.

[30] Llythyr a anfonodd Fenix i'r Gofrestrfa Gwybodaeth ar 26 Ionawr 2024 yn rhoi gwybod am y gwall.

[31] Ymateb OnlyFans ar 5 Mawrth 2024 i'r cwestiynau anffurfiol (1.2 a 7) anfonodd Ofcom ar 20 Chwefror 2024.

[32] Bwletin gorfodi Ofcom yn cyhoeddi ei fod yn agor ymchwiliad.

[33] Ar 4 Chwefror 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein bod wedi diwygio cwmpas yr ymchwiliad, ac wedi cau ein hymholiadau i gydymffurfiad Fenix ag adran 368Z1(2) ac adran 368Y(3)(c) o'r Ddeddf.

3.23 Ar 31 Gorffennaf 2024, cyflwynodd Ofcom gais statudol am wybodaeth[34] i Fenix, yn gofyn am wybodaeth am sut roedd wedi rhoi ei fesurau sicrwydd oedran ar OnlyFans ar waith. Gofynnodd am ragor o wybodaeth am ddarganfod y camffurfweddiad. Roedd y cais am wybodaeth hefyd yn gofyn *"a oedd OnlyFans wedi cymryd unrhyw gamau i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth cyn ei darparu, ac os felly, pa gamau?"*.[35]

3.24 Ar 28 Awst 2024, ymatebodd Fenix gan ddweud:

> *"Pan fydd Fenix yn cael cais am wybodaeth gan Ofcom, y Tîm Cyfreithiol sy'n bennaf gyfrifol am ymateb i'r cais hwnnw am wybodaeth. Yn 2022, roedd y cyfrifoldeb hwn ar Uwch Berson D ac Uwch Berson E....Yn achos yr ymatebion am oedran herio [✂] a roddodd Fenix i Ofcom yn flaenorol, roedd y swyddog cyfrifol yn dibynnu ar ddatganiadau a chadarnhad a ddarparwyd gan ei d/thîm am yr oedran herio amcangyfrif oedran."*[36]

3.25 Ymhelaethodd Fenix ymhellach hefyd ar sut roedd ei oedran herio wedi cael ei roi ar waith ac eglurodd:

> *"Pan symudodd y llif gwaith amcangyfrif oedran o'r cam prawf i'r cam cynhyrchu ym mis Tachwedd 2021, bwriad Fenix oedd gosod oedran herio amcangyfrif oedran ffans yn y DU yn 23 oed. Drwy amryfusedd mae'r rhaglennydd unigol, sydd wedi'i gontractio i weithio i Fenix, wedi gosod oedran herio'r amcangyfrif oedran i 20 oed yn lle 23."*[37]

---

[34] Cais cyntaf Ofcom am wybodaeth yn ei ymchwiliad dyddiedig 31 Gorffennaf 2024.
[35] Cais cyntaf Ofcom am wybodaeth yn ei ymchwiliad dyddiedig 31 Gorffennaf 2024.
[36] Ymateb Fenix ar 28 Awst 2024 i gais am wybodaeth dyddiedig 31 Gorffennaf 2024. Atodiad 3 cwestiwn 1.
[37] Ymateb Fenix, dyddiedig 28 Awst 2024, i'n cais cyntaf am wybodaeth yn yr ymchwiliad. Atodiad 1 cwestiwn 1.

# 4. Penderfynu ar y tor-amod

4.1 Am y rhesymau a nodir isod, fe wnaethom benderfynu bod Fenix wedi mynd yn groes i'w ddyletswyddau o dan adrannau canlynol y Ddeddf:

a) 368Y(3)(b): dyletswydd i gydymffurfio â gofyniad am wybodaeth o dan adran 368Z10; ac

b) 368Z10(6): dyletswydd i ddarparu gwybodaeth o dan adran 368Z10 mewn modd a ffurf ac o fewn cyfnod rhesymol a bennir gan Ofcom mewn cais am wybodaeth.

## Penderfynu ar dorri amodau adran 368Y(3)(b) ac adran 368Z10(6)

4.2 Yn unol ag adran 368Z10(6) o'r Ddeddf, roedd gan Fenix ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 368Z10 o'r Ddeddf mewn modd a ffurf ac o fewn cyfnod rhesymol a bennir gan Ofcom yn Hysbysiadau 2022 a 2023. Yn yr un modd, yn unol ag adran 368Y(3)(b), roedd gan Fenix ddyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion casglu gwybodaeth o dan adran 368Z10 ar y ddau achlysur.

4.3 Mae Ofcom o'r farn mai rhan hanfodol ac angenrheidiol o'r ddyletswydd sy'n cael ei rhoi gan adran 368Z10(6) – i ddarparu gwybodaeth *'mewn modd a ffurf ac o fewn cyfnod rhesymol a bennir gan Ofcom mewn cais am wybodaeth'* – yw bod yn rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei darparu fod yn gywir ac yn gyflawn. Byddai methu â darparu gwybodaeth gywir a chyflawn mewn ymateb i gais o'r fath am wybodaeth yn tanseilio diben statudol pwerau Ofcom i ofyn am wybodaeth o'r fath a'i allu i ddibynnu arni er mwyn arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

4.4 Yng nghyd-destun cael gwybodaeth gan fusnesau sefydledig, fel Fenix, at ddibenion cyhoeddi adroddiadau tryloywder, rydym yn disgwyl bod systemau a gwiriadau priodol a chadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chwestiynu'n briodol, ei chroeswirio, a'i hadolygu drwy sianeli llywodraethu priodol cyn ei chyflwyno mewn ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth. Mae hyn er mwyn atal Ofcom rhag dibynnu ar wybodaeth anghywir wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â VSPs.

4.5 Ar ben hynny, ar ôl cyflwyno gwybodaeth mewn ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth, mae Ofcom yn disgwyl i brosesau llywodraethu priodol fod ar waith i sicrhau bod tîm rheoleiddio darparwr, ac yn y pen draw Ofcom, yn cael gwybod am unrhyw wybodaeth anghywir sy'n cael ei darparu cyn gynted â phosibl, er mwyn atal oedi neu rwystr yn ein gwaith.

4.6 Roedd Hysbysiad 2022 a Hysbysiad 2023 (gyda'i gilydd, yr 'Hysbysiadau'), a gyhoeddwyd o dan ac yn unol ag adran 368Z10, yn datgan bod yn rhaid i'r wybodaeth fod yn brydlon, yn gyflawn ac yn gywir ac y gallai fod sgil-effeithiau cyfreithiol pe bai Fenix yn methu darparu ymatebion cywir i'r cwestiynau yn yr Hysbysiadau.

4.7 Fel y nodwyd ym mharagraffau 3.19 i 3.21 uchod, ar 22 Ionawr 2024, rhoddodd Fenix wybod i dîm goruchwylio Ofcom (ar lafar ac yn ddiweddarach yn ysgrifenedig) ei fod wedi darparu gwybodaeth anghywir mewn ymateb i Hysbysiadau 2022 a 2023.

4.8 O'r herwydd, ac yn unol â'r rheoliadau a nodir yn yr Hysbysiadau, rydym o'r farn bod darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn golygu nad oedd yr wybodaeth a oedd

wedi cael ei darparu yn y modd a’r ffurf a bennir, ac felly fe wnaethom ganfod bod Fenix yn torri adran 368Z10(6) ac adran 368Y(3)(b).

4.9 Rydym yn nodi bod y tor-amod hwn wedi parhau am gyfnod o dros 16 mis gyda’i gilydd, o 5 Medi 2022 (pan ymatebodd Fenix i Hysbysiad 2022) tan 22 Ionawr 2024, pan roddodd wybod i Ofcom am y cyflwyniad anghywir. Mae’r amser a gymerwyd i ganfod y gwall yn nhrothwy amcangyfrif oedran OnlyFans yn taflu amheuaeth ar gadernid y prosesau a oedd ar waith gan Fenix i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparodd i Ofcom yn gyflawn ac yn gywir, ac mae hefyd yn creu pryder am y prosesau llywodraethu cyffredinol roedd gan y gwasanaeth yn eu lle i brofi ac i fonitro effeithiolrwydd mesurau diogelwch ei lwyfan. Petai gan Fenix brosesau llywodraethu cadarnach ar waith – gan gynnwys gwirio ffeithiau’r wybodaeth roedd wedi’i darparu – mae’n debygol na fyddai camffurfweddiad yr oedran herio ar gyfer y mesur amcangyfrif oedran wedi cymryd 26 mis i’w ddarganfod.

# 5. Penderfynu ar lefel briodol y gosb

5.1 Fel sy'n cael ei egluro yn adran 2 uchod, mae adran 368Z2(1)(b) o'r Ddeddf yn rhoi'r pwerau i Ofcom roi cosb ariannol i ddarparwr VSP yn unol ag adran 368Z4, os bydd Ofcom yn penderfynu bod darparwr yn mynd neu wedi mynd yn groes i adran 368Y o'r Ddeddf, ac adran 368Z10 o'r Ddeddf. Ni fydd y gosb hon yn fwy na 5% o refeniw cymwys perthnasol y darparwr neu £250,000, pa un bynnag yw'r mwyaf, ac fel y mae Ofcom yn penderfynu sy'n briodol ac yn gymesur â'r tor-amod neu'r methiant.

## Cosb

5.2 Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 4.1 i 4.9, canfu Ofcom fod Fenix wedi mynd yn groes i'w ddyletswyddau o dan adran 368Y(3)(b) ac adran 368Z10 o'r Ddeddf rhwng 5 Medi 2022 a 22 Ionawr 2024. O ganlyniad, rydym wedi rhoi cosb o £1,050,000 i Fenix mewn perthynas â'r tor-amod hwn. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 30% ar ffigur y gosb o £1,500,000 y byddem wedi'i roi fel arall, sy'n adlewyrchu'r arbedion adnoddau i Ofcom oherwydd bod Fenix wedi cyfaddef atebolrwydd a'i fod wedi cwblhau'r broses setliad.

5.3 Mae Ofcom wedi cyhoeddi Canllawiau Cosbau sy'n nodi'r ffactorau y gallwn eu hystyried wrth bennu swm priodol cosb ariannol.[38] Yn unol ag adran 368Z4(2) o'r Ddeddf, rydym wedi ystyried y Canllawiau Cosbau ac wedi nodi isod ein hystyriaeth o'r ffactorau hyn, i'r graddau maent yn berthnasol i'r achos hwn. Rydym hefyd wedi ystyried a oes unrhyw gynseiliau perthnasol, gan nodi er y gallai penderfyniadau yn y gorffennol fod yn berthnasol, nid ydynt yn rhwymol ac efallai y bydd Ofcom, o ystyried amgylchiadau pob achos, yn gosod cosbau uwch mewn achosion yn y dyfodol nag mewn rhai blaenorol i atal yn effeithiol.[39] Ar sail yr elfennau amrywiol sy'n cael eu hystyried yn yr adran hon o'n Penderfyniad Terfynol, rydym o'r farn bod swm y gosb a gynigir yn yr achos hwn yn briodol ac yn gymesur, ond yn ddigon uchel i atal achosion o dorri amodau yn y dyfodol.

### Atal

5.4 Fel y nodir yn ein Canllawiau Cosbau, amcan canolog rhoi cosb ydy atal.[40] Rhaid i unrhyw gosb a roddwn fod yn ddigon uchel i atal y busnes rhag torri gofynion rheoleiddio, ac ar ben hynny, atal y diwydiant ehangach rhag gwneud hynny. Felly, rhaid iddi fod yn ddigon uchel i gymell Fenix ar lefel sefydliadol i gydymffurfio â Hysbysiadau Gwybodaeth yn y dyfodol a'r drefn reoleiddio ehangach sy'n berthnasol i VSPs. Dylai lefel y gosb fod yn ddigon uchel fel bo'r rheolwyr yn cydnabod nad yw'n fwy proffidiol i fusnes dorri'r gyfraith a thalu'r canlyniadau na chydymffurfio â'r gyfraith yn y lle cyntaf, ac felly dylai gymell arfer da a diwylliant o gydymffurfiad ar draws y sefydliad.[41]

5.5 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod yr angen i atal mewn unrhyw gosb a bennir am fynd yn groes i ofynion gwybodaeth yn bwysig gan fod Hysbysiadau Gwybodaeth yn hanfodol i

---

[38] Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)
[39] Gweler paragraff 1.3 o Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)
[40] Gweler paragraff 1.11 o Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)
[41] Gweler paragraff 1.5 o Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)

swyddogaethau rheoleiddio Ofcom, gan gynnwys yng nghyd-destun rheoleiddio VSP. Felly, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig sicrhau bod Fenix, fel darparwr OnlyFans, a darparwyr VSP eraill, yn deall pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir i Ofcom a, lle darparwyd gwybodaeth anghywir, rhoi gwybod i Ofcom cyn gynted â phosibl.

5.6 Rydym o'r farn y byddai rhoi cosb ariannol yn yr achos hwn yn cymell rheolwyr Fenix i gymryd camau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn y dyfodol. Byddai hefyd yn sicrhau bod Fenix a'r sector ehangach yn deall pa mor ddifrifol mae Ofcom yn ystyried yw cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

## Maint a chryfder ariannol Fenix

5.7 Rhaid i lefel y gosb fod yn ddigonol, ar ôl ystyried trosiant y corff sy'n cael ei reoleiddio, i gael effaith sylweddol ar y corff sy'n cael ei reoleiddio er mwyn iddo gael ei gymell i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac yn osgoi torri amodau eto yn y dyfodol. Gall cyrff sy'n cael eu rheoleiddio sydd â throsiant uchel, er enghraifft, wynebu cosbau mwy er mwyn atal. Rydym wedi rhoi'r gosb sy'n briodol ac yn gymesur, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos yn gyffredinol, gan gofio'r amcan canolog sef atal.

5.8 Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae gan Fenix dîm cyfreithiol a rheoleiddiol profiadol a dylai fod wedi bod yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaethau rheoleiddiol a chanlyniadau torri amodau. O'r herwydd, dylai fod wedi cymryd camau i sicrhau bod y data y dibynnir arno yn cael ei ddilysu'n briodol, ei groeswirio a'i adolygu drwy sianeli llywodraethu priodol (gan gynnwys gan uwch reolwyr priodol) cyn ei gyflwyno. Byddai angen cosb briodol i sicrhau bod mesurau llywodraethu cadarn yn cael eu rhoi ar waith i warantu bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn ymateb i unrhyw hysbysiadau statudol am wybodaeth yn y dyfodol.

5.9 Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, anfonodd Ofcom hysbysiad gwybodaeth statudol ar 31 Gorffennaf 2024, yn gofyn i Fenix ddarparu ei *'refeniw cymwys perthnasol.'* Yn yr Hysbysiad hwn, rhoddodd Ofcom y darpariaethau cyfreithiol perthnasol a nodir drwy ganllawiau, o ran beth allai'r termau *'refeniw cymwys'* a *'refeniw cymwys perthnasol'* ei olygu'n ymarferol.

5.10 Mewn ymateb i'r Hysbysiad hwn ac ar sail dehongliad Fenix o 'refeniw cymwys perthnasol' a roddwyd yn adran 368Z4(3) o'r Ddeddf, cadarnhaodd Fenix fod ei refeniw cymwys perthnasol yn UDA$ [✂]. Mae hyn tua £ [✂] (ar 28 Awst 2024).

5.11 Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod refeniw byd-eang Fenix ar gyfer 2023 yn UDA$1,306,696,000.[42] Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu hystyried wrth benderfynu a yw'r gosb yn briodol o uchel i atal Fenix rhag torri amodau yn y dyfodol.

## Difrifoldeb, niwed a beiusrwydd

### Difrifoldeb

5.12 Mae ein Canllawiau Cosbau yn disgrifio difrifoldeb fel enghraifft benodol o ffactor y gallwn ei ystyried wrth bennu cosb.[43] Mae pwerau Ofcom o dan adran 368î10 o'r Ddeddf yn hanfodol i allu Ofcom i reoleiddio'r sector VSP yn effeithiol. Mae mynd yn groes i ofyniad i

[42] Fenix International Limited's annual report and consolidated Financial Statements for the year ended 30 November 2023.
[43] Gweler adran 1.12 - Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)

ddarparu gwybodaeth yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol o dan adran 368Z10 yn fater difrifol yn ei hanfod gan ei fod yn amharu'n sylweddol ar allu Ofcom i gyflawni ei swyddogaethau.

5.13 Yn ogystal â difrifoldeb cynhenid mynd yn groes i'r Hysbysiadau, mae ffactorau penodol yn yr achos hwn sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb tor-amod honedig Fenix.

5.14 Yn gyntaf, mae methiant ymddangosiadol Fenix i ddarparu data cywir yn unol â'r Hysbysiadau yn awgrymu nad yw wedi sefydlu prosesau llywodraethu cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir mewn ymateb i bwerau statudol yn gywir ac yn gyflawn, nac i sicrhau bod y prosesau a'r systemau hynny'n cynnwys y lefel angenrheidiol o oruchwyliaeth sydd ei hangen i sicrhau bod ei ymatebion yn gywir ac yn gyflawn. Ar ben hynny, roedd yr wybodaeth anghywir a ddarparwyd am yr oedran herio yn ganolog i ddealltwriaeth Ofcom o'r mesurau sicrwydd oedran ar OnlyFans, a oedd yn sail i'n dealltwriaeth o gydymffurfiad Fenix â'r drefn.

5.15 Rydym yn disgwyl y bydd yr holl wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i gais statudol am wybodaeth yn cael ei hadolygu, ei chroeswirio a'i dilysu'n ddigonol drwy sianeli llywodraethu priodol. Rydym yn disgwyl i ymatebion i geisiadau statudol am wybodaeth gael eu hanfon at Ofcom dim ond ar ôl cadarnhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir, a dylid rhoi gwybod i Ofcom cyn gynted â phosibl am unrhyw broblemau gyda chywirdeb y data a gyflwynir. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ddelio â chwmni mawr, sydd â llawer o adnoddau fel Fenix.

5.16 Yn ail, rydym hefyd yn nodi bod Fenix wedi cymryd 18 diwrnod i roi gwybod ei fod wedi dod o hyd i'r camffurfweddiad oedran herio o'r pwynt y cafodd ei gadarnhau'n fewnol, sydd, yn ein barn ni, yn ffactor sy'n gwneud pethau'n waeth o ran y gosb (gweler paragraffau 5.26 a 5.27 isod).

5.17 Rydym o'r farn bod y methiant hwn i roi trefniadau llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith ynghylch ymateb Fenix i geisiadau statudol am wybodaeth, i sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflwynwyd i Ofcom yn gywir ac yn gyflawn, yn ogystal â sicrhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod Ofcom (ac, yn wir, ei dîm rheoleiddio a chyfreithiol ei hun) yn ymwybodol o'r wybodaeth anghywir cyn gynted â phosibl, yn cynrychioli methiant rheoleiddiol difrifol. Bydd tîm goruchwylio Ofcom yn ymgysylltu ag OnlyFans i adolygu'r prosesau llywodraethu presennol sydd ganddo ar waith.

### Niwed

5.18 Rydym hefyd wedi ystyried maint y niwed, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, a achosir gan y tor-amod.[44]

5.19 Un o flaenoriaethau Ofcom yw cynyddu tryloywder am y camau mae VSPs yn eu cymryd i ddiogelu eu defnyddwyr ers sefydlu'r drefn VSP.[45] Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae yn hybu gwell tryloywder gan VSPs ac yn sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr yn ystyrlon i'r cyhoedd, gan gynnwys defnyddwyr VSPs, rhieni a gofalwyr, a'r Senedd. Mae diogelu plant rhag dod i gysylltiad â deunydd niweidiol ar lwyfannau i

[44] Gweler adran 1.12 - Penalty-Guidelines-September-2017.pdf (ofcom.org.uk)
[45] Llwyfannau rhannu fideos: Cynllun a dull gweithredu Ofcom, Hydref 2021.

oedolion yn flaenoriaeth allweddol i Ofcom,[46] sy'n golygu bod tryloywder yn y maes hwn yn arbennig o bwysig.

5.20 Roedd y ffaith bod Fenix wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir mewn ymateb i Hysbysiad 2022 wedi golygu bod Ofcom wedi cyhoeddi gwybodaeth anghywir yn ein hadroddiad tryloywder VSP cyntaf ym mis Hydref 2022.[47] Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi tryloywder i'r diwydiant ac i'r cyhoedd, gan dynnu sylw at sut mae darparwyr VSP yn gosod, yn gorfodi ac yn profi'r mesurau maen nhw'n eu rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr. Roedd ffigur anghywir y trothwy oedran a ddarparwyd mewn ymateb i'r Hysbysiad hwnnw yn tanseilio gallu Ofcom i gyflawni'r swyddogaeth reoleiddio hollbwysig hon ac yn golygu bod yr wybodaeth anghywir a gyhoeddwyd yn adroddiad VSP Blwyddyn 1 yn dal heb ei chywiro. Mae hyn wedi effeithio ar hygrededd a dibynadwyedd yr wybodaeth rydym wedi'i rhannu'n gyhoeddus ac mae ganddo'r potensial i danseilio ein rôl fel rheoleiddiwr gwasanaethau ar-lein y DU, yn ogystal ag achosi gwaith ychwanegol gan y bydd yn rhaid i ni gyhoeddi nodyn cywiro i'n hadroddiad o ganlyniad i fethiant Fenix. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifrif.

### Beiusrwydd a chywiro'r tor-amod

5.21 Nid oes gennym reswm i gredu bod y tor-amod wedi digwydd yn fwriadol nac yn ddi-hid; fodd bynnag, rydym yn credu bod ymddygiad Fenix yn ddiofal ac wedi dangos nad oedd gan Fenix brosesau llywodraethu digonol ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd ganddo yn gywir. Mae Ofcom yn disgwyl i ddarparwyr VSP, fel Fenix, fod â systemau sicrhau ansawdd cadarn a phrosesau llywodraethu priodol ar waith, cyn ymateb i unrhyw hysbysiadau gwybodaeth statudol.

5.22 Mae hyn yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at lefel y gosb sy'n briodol yn ein barn ni, gan ei bod yn hanfodol i'n hamcan canolog o sicrhau bod y gosb yn ddigon uchel i gymell Fenix i ystyried ei rwymedigaethau rheoleiddio o ddifrif a sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn y dyfodol.

5.23 Rydym yn cydnabod bod Fenix nawr wedi rhoi gwybodaeth gywir i Ofcom am ei oedran herio ar gyfer ei fesur amcangyfrif oedran. O'r herwydd, rydym o'r farn bod y mater wedi'i ddatrys.

## Hyd ac effaith ehangach y tor-amod

5.24 Roedd y tor-amod wedi para am 16 mis sydd, fel y nodir ym mharagraff 5.20 uchod, yn golygu bod gwybodaeth anghywir am fesurau sicrwydd oedran OnlyFans – mesurau hanfodol i ddiogelu plant rhag deunydd dan gyfyngiadau o dan y drefn VSP – wedi'i chynnwys yn ein hadroddiadau a gyhoeddwyd am gyfnod sylweddol.

5.25 Er bod y cyfnod sylweddol hwn yn fethiant difrifol ynddo'i hun, mae hefyd yn dangos bod Fenix wedi methu mynd ati'n rhagweithiol i wirio ei drothwy sicrwydd oedran gweithredol yn y cyfnod o 26 mis y cafodd ei osod ar 20 mewn camgymeriad. Fel y nodir yn ein Canllawiau ar Niwed a mesurau, dylai llwyfannau sy'n dymuno sicrhau eu hunain eu bod yn

[46] Llwyfannau rhannu fideos: Cynllun a dull gweithredu Ofcom, Hydref 2021, tudalen 16; gweler hefyd Rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos, 25 Ionawr 2024.
[47] Gweler yr adroddiad: Blwyddyn gyntaf Ofcom o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos, Hydref 2022 adran 13.

cydymffurfio â’u dyletswyddau o dan y Drefn VSP gasglu gwybodaeth yn rheolaidd am effaith eu mesurau diogelu i reoli risg ac i ddiogelu defnyddwyr.[48]

# Ffactorau gwaethygol

## Oedi cyn rhoi gwybod am y tor-amod

5.26 Rydym yn nodi bod Fenix, o'r adeg y cadarnhawyd y darganfyddiad yn fewnol, wedi cymryd 18 diwrnod i roi gwybod bod y broses oedran herio wedi’i ffurfweddu’n anghywir.

5.27 Er ein bod yn cydnabod yr angen i gynnal archwiliadau mewnol, i geisio cyngor cyfreithiol ac i gymryd unrhyw gamau unioni, ni chredwn fod yr amser a gymerodd Fenix i roi gwybod i ni am hyn yn rhesymol. O’r herwydd, ystyriwyd bod hyn yn ffactor gwaethygol wrth ystyried lefel briodol y gosb. Mae Ofcom yn disgwyl bod rhanddeiliaid yn rhoi gwybod i ni am unrhyw achosion posibl o dorri amodau cyn gynted â phosibl ac o fewn cyfnod mor fyr ag sy’n rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos.

# Ffactorau lliniarol

## Hanes Blaenorol o Dorri Amodau

5.28 Rydym yn nodi mai dyma’r tro cyntaf i ni ganfod bod Fenix, fel darparwr OnlyFans, wedi torri amodau ei ddyletswyddau o dan adran 368Z10, 368Y(3)(b) o’r Ddeddf, neu o dorri amodau unrhyw ddyletswydd arall o dan y drefn VSP yn fwy cyffredinol.

## Hunan-adrodd am dor-amod posibl

5.29 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.19 uchod, sylwodd Fenix fod yr wybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i Hysbysiadau 2022 a 2023 yn anghywir, a chymerwyd camau rhagweithiol i roi gwybod i Ofcom am y mater. Mae’n destun pryder bod Fenix wedi cymryd 18 diwrnod i roi gwybod i ni am y mater, ond rydym yn cydnabod pa mor bwysig a gwerthfawr yw hunan-adrodd ar faterion cydymffurfio, ac mae hyn wedi cael ei ystyried wrth ystyried swm priodol y gosb.

5.30 Mae’n bwysig bod y diwydiant ehangach yn ystyried o ddifrif sut maent yn cydymffurfio â’u cyfrifoldebau rheoleiddio a’u bod, pan fydd pethau’n mynd o chwith, yn cydnabod hyn ac yn gweithredu’n gyflym ac yn gyfrifol i wneud iawn am unrhyw niwed a achosir. Mae bod yn agored ac yn dryloyw gyda’r rheoleiddiwr yn rhan hanfodol o reoleiddio effeithiol, ac felly rydym yn annog endidau a reoleiddir i roi gwybod am eu pryderon neu fethiannau posibl i gydymffurfio. Er gwaethaf y methiannau rydym wedi dod ar eu traws yn yr achos hwn, rydym yn annog darparwyr VSP yn gryf i gymryd sylw o ymddygiad Fenix yn hyn o beth.

# Canfyddiadau ar y gosb briodol

5.31 O dan y Ddeddf, mae swm y gosb a roddir ar ddarparwr VSP am dorri amodau ei gyfrifoldebau, gan gynnwys y dyletswyddau sydd wedi’u nodi yn adrannau 368Y a 368Z10, yn swm nad yw'n fwy na 5% o refeniw cymwys perthnasol y darparwr neu £250,000, pa un bynnag yw’r mwyaf.[49]

---

[48] Canllawiau i lwyfannau rhannu fideos, paragraffau 7.47 a 7.50 i 7.56.

[49] Adran 368Z10(2) a (4) y Ddeddf

5.32 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.10 uchod, refeniw cymwys perthnasol Fenix yw UDA$[✂].[50]

## Casgliad

5.33 Gan ystyried yr holl ffactorau a nodir ym mharagraffau 5.2 i 5.30 uchod yn eu cyfanrwydd, credwn ei bod yn briodol ac yn gymesur gosod cosb o £1,050,000. Mae hyn o dan 5% o refeniw cymwys perthnasol Fenix.[51] Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 30% ar ffigur y gosb o £1,500,000 y byddem wedi'i roi fel arall, sy'n adlewyrchu'r arbedion adnoddau i Ofcom oherwydd bod Fenix wedi cyfaddef atebolrwydd a'i fod wedi cwblhau'r broses setliad.

5.34 Rydym o'r farn bod swm y gosb yn gymesur â difrifoldeb y tor-amod.

# Dehongliad

5.35 Yr un ystyr sydd i'r geiriau neu'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Penderfyniad Terfynol hwn ar y tor-amod a'r gosb ag a ddefnyddir yn y Ddeddf, ac eithrio fel y nodir fel arall yn y Penderfyniad Terfynol hwn ar y tor-amod a'r gosb.

Suzanne Cater
Cyfarwyddwr Gorfodi

11 Ebrill 2025

[50] Oddeutu £[✂] mewn Punnoedd Sterling ar 28 Awst 2024.

[51] Cadarnhaodd Fenix mai ei refeniw cymwys perthnasol yw UDA$[✂] ar 28 Awst 2024. Rydym wedi defnyddio cyfradd gyfnewid Banc Lloegr ar 28 Awst 2024 i drosi'r ffigur i GBP.